**LC291**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001

### Y cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu grantiau fel cymhellion i annog pobl i ymgymryd â chyrsiau hyfforddi ôl-raddedig sydd wedi'u seilio yn y coleg, a'r rheiny wedi'u llunio'n unswydd i'w paratoi i addysgu personau sy'n ymgymryd ag addysg bellach.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

Gan eu bod wedi cael cyfle i fwrw golwg ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o fân bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau y mae angen eu cofnodi fel sylwadau cyffredinol.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

19 Mehefin 2001